



# Helpu Gartref
# efo
# Llawysgrifen





## Pwyntiau Ynglŷn â Llawysgrifen

Mae rhieni'n aml â phryderon penodol ynglŷn â llawysgrifen. Nid yw'n angenrheidiol i ddefnyddio unrhyw ddull arbennig o ysgrifennu — os yw'n ddealladwy yna mae'n iawn. Mae llawysgrifen yn adlewyrchu personoliaeth ac mae rhai pobl gyda llawysgrifen fawr a rhai gydag ysgrifen fach. Os yw'r un maint drwy'r darn o waith i gyd nid yw o bwys pa faint a ddefnyddir dim ond ei bod yn ffitio rhwng y llinellau.

Nid yw'n hanfodol ymuno'r llythrennau i gyd. Mae'n gyflymach i'r rhan fwyaf o blant os ydynt yn gwneud hynny, ond ychydig iawn o bobl sydd yn ymuno pob llythyren. Os oes plentyn yn ffeindio hi'n anodd ffurfio llythrennau wedi'u hymuno'n gywir gall hyn arwain at ddryswch am beth mae'r gair yn ei ddweud. Hefyd mae problemau wrth gadw i fyny gyda nodiadau dosbarth yn gallu digwydd os yw plentyn yn ymdrechu gyda chyflymdra wrth ymuno llythrennau. Yn yr achosion yma mae printio yn ddigonol, tra gall ymarfer ymuno llythrennau barhau gartref. Fodd bynnag, i rai plant, yn enwedig y rhai ag anawsterau cydsymud, fydd yn fwy darllenadwy iddynt brintio yn hytrach nag ymuno llythrennau i fyny bob amser.

Mae angen pwysleisio i'ch plentyn pwysigrwydd cael lllawysgrifen sy'n ddealladwy, yna gael eu syniadau cael eu darllen a'u gwerthfawrogi'n fwy. Bydd llawer achlysur pan fydd llawysgrifen yn bwysig e.e. asesiadau, ceisiadau swyddi, ffurflenni a llythyron ffurfiol a.y.b. Yn yr un modd, bydd hefyd achlysuron pan nad yw llawysgrifen yn bwysig, e.e. rhestrau siopa a drafftiau cyntaf o waith.

Os yw'ch plentyn yn defnyddio'i law/llaw chwith ni ddylai ef/hi cael mwy o broblemau na phlentyn sy'n defnyddio ei law/llaw dde. Gwiriwch nad yw'r plentyn cuddio'r gwaith cyn gynted ag y mae wedi'i ysgrifennu. Ydi'r plentyn yn gallu symud ei law/llaw i fyny ac i lawr fel y bydd yn gallu gweld beth mae wedi'i newydd ysgrifennu?

Mae rhai plant yn ysgrifennu bonion y llythrennau yn gorwedd un ffordd ac yna'r ffordd arall. Mae hyn yn tueddu i edrych yn flêr. Y rheswm yn aml yw bod y plentyn yn angori ei arddwrn ac yn ymestyn ei fysedd ymhellach a phellach ar hyd y llinellau. I osgoi hyn dylai'r plentyn symud ei law/llaw ychydig ar ddiwedd ysgrifennu bob un gair. Mae ysgrifennu da yn gorwedd i gyd yr un ffordd - ymlaen, yn ôl neu'n syth i fyny.

Mae angen ysgrifbinnau gydag inc du neu glas ar gyfer ysgol fel arfer. Bydd gwahanol fathau o ysgrifbinnau yn siwtio gafael pen gwahanol ac arddulliau ysgrifennu gwahanol, felly arbrofwch nes dod o hyd i'r un mwyaf cyfforddus a'r mwyaf addas ar gyfer ysgrifennu ddarllenadwy. Yn gyffredinol beth bynnag sydd yn gyffyrddus i'r plentyn sydd orau.





## Osgo a gafael

Mae'n bwysig bod plant yn eistedd i fyny i ysgrifennu a defnyddio'r llaw sydd ddim yn ysgrifennu i ddal y dudalen yn llonydd. Mae'r dull o afael y pen hefyd yn bwysig. Gafael cyfforddus ysgafn sy'n caniatáu digon o reolaeth yw'r gorau. Mae gafael y pen yn rhy dynn neu'n rhy lac yn aml yn arwain at daclusrwydd anghyson a dwylo blinedig. Mae gafael yn y pen a defnyddio'r math o afael a ddangosir yn y llun isod yn fuddiol, ond erbyn oedran 11 mae'n anodd iawn newid y dull o afael y pen sydd wedi cael ei ddatblygu. Mae dal yr ysgrifbin ar bwynt da yn bwysig hefyd. Mae dal y pen ar uchelder addas fel mae'r darlun isod yn dangos yn caniatáu'r rheolaeth orau o'r pen. Mae dal y pen yn rhy uchel neu'n rhy isel yn effeithio ar reolaeth ar y pen ac felly ar daclusrwydd hefyd.



## Cysur

Mae ysgrifbinnau gyda gafael sbwng ar gael ond mae ateb syml fel band elastig wedi'i roi lle mae'r plentyn yn gafael yr ysgrifbin yn gallu rhwystro llithro oddi ar y gafael.

Gofynnwch i'ch plentyn gopïo darn o waith allan yn eu llawysgrifen gorau. Nid yw'n gorfod bod yn ddarn hir iawn, mae 100 o eiriau'n ddigon. Pan fydd wedi'i orffen, gwiriwch am gamgymeriadau ac edrychwch ar y rhestr wirio isod. Cadw'ch ymlaen gyda'r ymarfer - bydd ychydig o funudau'r dydd yn gymorth. Cymharwch lawysgrifen daclus newydd eich plentyn gyda hen ddarn. Canmolwch y gwahaniaeth. Ceisiwch beidio â phoeni. Mae ymarfer fel arfer yn dod â gwelliant.


## Rhestr Wirio

Gallwch helpu eich plentyn drwy ei (hannog i ysgrifennu drafft bras o'r holl ddarnau pwysig o waith, cyn iddo/iddi wneud copi taclus. Gellir defnyddio'r rhestr ganlynol fel canllawiau.

- Oes ganddo/ganddi ysgrifbin da ?
- Ydi e/hi yn eistedd yn gyffyrddus gyda golau da ?
- Ydi ei (llygaid tua 25cm oddi wrth y papur ac ydi'r sbectols ymlaen os bydd eu hangen?
- Ydi e/hi'n dal yr ysgrifbin yn gywir?
- Ydi e/hi yn symud ei (llaw ar hyd y llinell yn ddigon aml ?
- Ydi e/hi yn mynd rownd pob llythyren y ffordd iawn ? Gwelir y saethau ar y siart dros y tudalen.
- Ydi'r llythrennau'r maint iawn o'i gymharu â'i gilydd?
- Ydi cynffonau'r llythrennau yn mynd o dan y llinell pan ddylsent?
- Ydi bonion y llythrennau yn mynd uwchben y llinellau pan ddylsent?
- Ydi'r ysgrifen yn goleddu i'r un cyfeiriad?
- Ydi'r holl lythrennau i gyd y ffurf iawn ? Gwelir y siart ar y dudalen nesaf.
- Oes yna brif lythrennau wedi'u cymysgu mewn lle dylid cael ond llythrennau bach ?
- All pobl eraill ddarllen y llawysgrifen ?
- Ydi'r plentyn yn meddwl ei fod yn ddarn da o waith llawysgrifen? Ydi e/hi yn falch ohono ?

# Ffurfio Llythrennau

Gall dangos i'ch plentyn ffordd effeithiol o lunio llythrennau fod yn help.




* Dyma le y dylid dechrau'r llythyren
Dyma'r cyfeiriad y dylid mynd ynddo